Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Plant Dyffryn Nantlle**

**Y Caban, Safle Ysgol Bro Lleu**
**Ffordd y Brenin**
**Pen-y-groes**
**Caernarfon**
**LL54 6RL**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**Dydd Mawrth, 11 Medi 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Clwb Plant Dyffryn Nantlle wedi'i gofrestru i ddarparu gofal ar gyfer uchafswm o 18 o blant. Mae'r gwasanaeth ar agor yn ystod tymor yr ysgol rhwng 3pm a 6pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o gaban cludadwy ar dir yr ysgol gynradd ym Mhen-y-groes, Caernarfon.

Yr unigolion cyfrifol yw Mair Crookes a Maira Lewis, a Maira Lewis yw'r person â gofal hefyd.

Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg, ac mae'r holl staff yn gallu siarad Cymraeg a Saesneg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus, wedi ymgartrefu ac yn ymddiddori yn eu chwarae, ac maen nhw'n derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r staff yn diwallu anghenion unigol y plant yn eithriadol o dda ac yn darparu amrediad o weithgareddau, ac maen nhw'n hybu rhyngweithio cadarnhaol. Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn gyfforddus ac yn lân, ac mae'r plant yn elwa ar amrywiaeth addas o deganau ac offer. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a bod y gwasanaeth yn rhedeg yn esmwyth.

### 2. Gwelliannau

Ers ein harolygiad diwethaf:

- Roedd staff wedi mynychu hyfforddiant a chyrsiau sy'n ymwneud â gofal plant
- Roedd adnoddau newydd wedi cael eu prynu

Mae'r arweinwyr wedi'n hysbysu ni bod y teganau a oedd mewn cyflwr gwael wedi'u symud o'r ardal chwarae awyr agored ers yr arolygiad hwn.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Canfuom nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llwyr ag un agwedd ar arweinyddiaeth a rheolaeth, lle mae angen i'r datganiad o ddiben (llawlyfr rhieni) gynnwys yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio y tro hwn, oherwydd nid oedd yn cael effaith niweidiol ar lesiant y plant, ond disgwylir i'r arweinwyr roi sylw i'r mater hwn ar unwaith.

Mae'r argymhellion ar gyfer gwelliannau i'w hystyried fel a ganlyn: diweddaru'r asesiad risg i gynnwys y risg bosibl i blant o ddefnyddio'r toiled i'r anabl, y cabinet ffeilio yn yr ystafell chwarae, darparu offer i blant hŷn sy'n fwy addas i'w hoedrannau a mwy o ofod i chwarae.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae plant yn gwneud dewisiadau ac yn mynegi eu hunain yn dda. Mae cyfleoedd chwarae'n amrywiol ac yn ddiddorol ac mae plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Mae’r plant yn rhyngweithio’n gadarnhaol ac yn dysgu sut i ofalu am eu hunain.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau mae gan y plant lais?

Mae plant yn mynegi eu hunain yn hyderus ac yn gwneud eu dewisiadau eu hunain.

Gwelsom fod y plant yn dewis eu gweithgareddau eu hunain a chyda phwy yr oeddent eisiau chwarae â nhw. Roedd y plant yn dewis yr hyn yr oedden nhw eisiau ei fwyta yn ystod amser byrbryd a phryd roeddent wedi bwyta digon. Roeddent yn siarad Cymraeg â'i gilydd ac roedd staff yn eu hateb yn Gymraeg pan oedd y plant yn siarad â nhw, gan ddangos bod iaith yr aelwyd yn cael ei pharchu. Ymatebwyd i geisiadau a chwestiynau'r plant yn briodol, a chlywsom sgyrsiau cyfeillgar rhwng y plant a’r staff. Er enghraifft, gofynnodd plant i'r staff eu helpu i glymu'r gysgodlen gynfas i'r ffens, a chafodd hyn ei wneud yn brydlon, gyda'r plant ac aelod o'r staff yn eistedd y tu mewn iddi gan siarad am ddigwyddiadau'r dydd neu'r hyn roeddent yn ei wneud.

Mae'r plant yn hyderus am eu bod yn cael eu clywed ac mae eu safbwyntiau'n cael eu parchu.

### 1.2 I ba raddau mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus.

Canfuom fod plant yn dod i arfer â’r drefn feunyddiol yn gyflym, er enghraifft, roedd rhai yn chwarae yn y gornel gartref neu'n chwarae gemau â'i gilydd.  Roedden nhw'n mwynhau ceisio ennill cystadleuaeth o bwy allai basio 'bom' dŵr i'w partner yn y gêm am yr amser hiraf heb ei gwympo. Clywyd llawer o ledchwerthin a chwerthin, gyda dau blentyn yn falch o gael eu cyhoeddi fel yr enillwyr, a oedd yn gwneud iddynt deimlo'n dda ynghylch eu hunain. Roedd y plant wedi gwneud ffrindiau, a gwelsom ni nhw'n chwarae gyda'i gilydd neu'n ymuno â'u ffrindiau ac aelod o staff i chwarae gêm o gardiau. Dywedodd un plentyn wrthym ei fod yn mwynhau'r clwb ac yn hoffi'r gweithgareddau dan do a'r gweithgareddau yn yr awyr agored.

Mae’r plant yn ymlaciedig ac yn hapus am eu bod yn teimlo'n gysurus yng nghwmni ei gilydd a chyda'r staff.

**1.3 Pa mor dda mae plant yn rhyngweithio?**

Mae’r plant yn rhyngweithio’n dda.

Serch ystod oedran y plant sy'n mynychu, canfuom fod yr holl blant yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac â'r staff. Roeddent yn gwrando ar gyfarwyddiadau ac yn ymateb iddynt, er enghraifft, gan fod y safle'n cael ei ddefnyddio gan blant iau yn ystod y dydd, gofynnodd staff iddynt eu helpu i ddod o hyd i'r darnau o fomiau dŵr a chael gwared arnynt yn ddiogel, a gwnaethant hyn. Roedd yn braf gweld plentyn yn gwneud breichled gyfeillgarwch o wlân ar gyfer plentyn iau, gan wenu wrth iddi gwblhau'r dasg, am ei bod yn gwybod ei bod hi'n gwneud y plentyn iau yn hapus. Gofynnwyd i'r plant ddod o hyd i 'ffrindiau' i chwarae gemau, a gwnaethant gydweithredu’n dda â'i gilydd fel grŵp i adeiladu cuddfan gysgodol. Roedd y plant yn dangos cwrteisi da, gan ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch', ac roeddent yn dangos parch tuag at y staff drwy eu galw'n 'Anti' neu 'Miss'.

Mae'r plant yn dod yn hunanddisgybledig ac yn dangos parch a charedigrwydd tuag at eu ffrindiau a'r staff.

**1.4 I ba raddau mae plant yn mwynhau eu chwarae a’u dysgu?**

Mae'r plant yn ymhél â'u chwarae a gallant hefyd ymlacio a mwynhau amserau tawel.

Roedd gan y plant fynediad at weithgareddau ac adnoddau a oedd yn addas ar gyfer eu hoedrannau a'u cam datblygu. Roedd ganddynt ychydig o ofod i symud o gwmpas yn yr ystafell chwarae, yn ogystal ag ardal i eistedd ac ymlacio. Roedd y plant yn mwynhau treulio amser yn yr awyr agored yn fawr iawn a chael amrywiaeth o weithgareddau chwarae â dŵr; er enghraifft, roedd dau blentyn yn canolbwyntio ar anelu ffrydiau o ddŵr at darged, roedd plant iau yn defnyddio gynnau dŵr i wneud patrymau ar y llawr, tra oedd eraill yn mwynhau gêm o sgitls neu'n tynnu lluniau yn eu cuddfan. Roedd y plant wedi datblygu sgiliau ieithyddol a chymdeithasol da ac roeddent yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd. Roeddent yn brysur trwy gydol ein hymweliad, a dim ond pan oedd hi’n bryd iddynt fynd adref y gwnaethant roi’r gorau i wneud pethau.

Mae’r plant yn cael eu cymell gan eu bod yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau chwarae a dysgu.

**1.5 Pa mor dda mae plant yn datblygu, dysgu a dod yn annibynnol?**

Mae'r plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu, dysgu a dod yn annibynnol.

Roedd y plant yn dewis pa weithgareddau yr oeddent eisiau cymryd rhan ynddynt yn hyderus, ac roeddent yn gofalu am eu hunain yn dda. Er enghraifft, roeddent yn rhoi eli haul arnynt eu hunain cyn mynd allan i chwarae, ac yn defnyddio'r toiled a'r cyfleusterau golchi dwylo'n annibynnol. Roedd y plant yn mwynhau chwarae dychmygus, fel chwarae yn

y gornel gartref a mynd â'r doliau am dro mewn bygis. Pan ddefnyddiwyd y dŵr a ddarparwyd gan staff, roedd plant yn llenwi eu dyfeisiau dal dŵr ar eu pennau eu hunain o'r tap y tu allan. Gan fod yr holl glustogau'n cael eu defnyddio yn y guddfan, gwnaeth un plentyn droi cynhwysydd teganau gwag ben i waered i eistedd arno ar bwys ei ffrindiau, a oedd yn dangos mentrusrwydd. Roedd y plant yn datblygu iechyd corfforol da ac yn cael eu hydradu’n dda, oherwydd roeddent yn cael opsiynau byrbryd iach ac yn cael eu hannog i yfed digonedd o ddŵr yn y tywydd poeth.

Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau, gan gynnwys chwarae rhydd, distrwythur a chwarae hunangyfeiriedig sy'n eu galluogi i ddatblygu sgiliau amrywiol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r staff yn gymwys ac yn ystyriol o'u cyfrifoldebau o ran darparu amgylchedd diogel a meithringar ar gyfer y plant dan eu gofal. Maen nhw'n adnabod y plant yn dda iawn; yn hybu rhyngweithio cadarnhaol ac yn cynllunio ar gyfer amrediad o brofiadau chwarae a dysgu.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda mae ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach?

Cedwir y plant yn ddiogel a hybir eu hiechyd corfforol.

Roedd y staff yn dilyn polisi amddiffyn plant y gwasanaeth, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn gwybod beth i'w wneud pe bai ganddynt bryderon ynghylch plentyn. Roedd gan staff gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol, a gallent roi sylw i blentyn yr oedd angen cymorth cyntaf arno mewn argyfwng. Canfuom fod staff yn rhoi gwybod i rieni am unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau, ac nid oedd y rhai a gofnodwyd yn rhai i boeni amdanynt. Roedd staff yn cynnal gwiriadau diogelwch dyddiol ac yn gwneud yn siŵr bod y plant yn cwblhau ymarferion tân rheolaidd, er mwyn iddynt wybod beth dylent ei wneud pe bai angen iddynt adael y safle mewn argyfwng. Roedd y staff yn derbyn hyfforddiant pan fyddai unrhyw anghenion meddygol ychwanegol yn cael eu nodi ac, o'r cofnodion a archwiliwyd, cedwid yr holl wybodaeth mewn manylder a dilynwyd gweithdrefnau'n llwyr. Roedd staff wedi ennill y sgôr uchaf o bump gan swyddog Hylendid Bwyd yr awdurdod lleol am baratoi a thrin bwyd, ac roeddent yn sicrhau bod plant yn rhoi eli haul amdanynt cyn mynd allan i chwarae, gan eu hatgoffa i gofio rhoi eli ar eu clustiau. Roedd y staff yn hybu iechyd a hylendid da, fel glanhau'r byrddau cyn amser byrbryd a chynnig byrbrydau a diodydd iach i'r plant.

Mae'r staff yn dangos eu bod yn gwybod yn union beth i'w wneud i gadw plant yn ddiogel ac yn iach

### 2.2 Pa mor dda mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r staff yn rheoli rhyngweithio'n dda.

Roedd staff yn dilyn polisi rheoli ymddygiad y gwasanaeth ac yn sicrhau bod plant a rhieni'n eglur ynghylch y safonau ymddygiad disgwyliedig yn y gwasanaeth. Roedd y staff yn esiamplau o ymddygiad da ac roeddent yn rhyngweithio â'r plant mewn modd cadarnhaol a pharchus. Fe'u clywsom yn siarad â phlant ar eu lefel nhw a gwnaethom arsylwi arnynt yn eistedd wrth ymyl y plant oedd yn chwarae. Roeddent yn annog plant i wrando ac yn eu

hatgoffa am yr angen i ddangos cwrteisi da a rhannu. Canfuom amgylchedd hapus lle roedd y plant a'r staff yn rhyngweithio â'i gilydd yn eithriadol o dda.

Mae'r staff yn deall yn union sut i gefnogi rhyngweithio cadarnhaol rhwng plant.

### 2.3 Pa mor dda mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn bodloni eu hanghenion unigol?

Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda.

Roedd y staff yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac yn diwallu anghenion y plant. Roeddent yn trefnu amrywiaeth o weithgareddau tu fewn a thu allan i hyrwyddo datblygiad cyffredinol y plant. Dywedodd y staff wrthym fod plant yn dewis yr hyn roeddent am ei wneud, a'r staff yn cynllunio gweithgareddau o gwmpas eu dewis. Er enghraifft, roedd y plant wedi penderfynu ar weithgareddau a oedd yn ymwneud â'r ornest Cwpan y Byd bresennol, ac roeddent wedi gwneud ac addurno eu cwpan y byd ei hunain. Roedd y staff yn cynllunio gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â themâu. Y thema ddiweddaraf oedd 'y môr', ac roedd adnoddau fel parasiwt wedi'i ddefnyddio i wneud tonnau a byrbrydau fel brechdanau bysedd pysgod yn cael eu cynnig er mwyn dod ag elfen o hwyl i'r gweithgareddau a drefnwyd. Roedd y staff wedi llunio albwm lluniau lliwgar sydd â lluniau o'r plant yn chwarae, fel y gallai'r plant gyfeirio atynt eu hunain i drafod eu cyraeddiadau gyda'i gilydd, a'u helpu i deimlo eu bod yn rhan o'r gwasanaeth. Roedd y staff yn hyderus ac yn ymlaciedig ac yn deall sut roedd plant yn dysgu ac yn datblygu ar eu cyflymder eu hunain.

Mae'r staff yn gymwys ac yn cynorthwyo'r plant i ddatblygu a dysgu.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn manteisio i'r eithaf ar yr ardaloedd sydd ar gael i'r plant er mwyn rhoi amgylchedd iddynt lle gallant ymlacio a chael hwyl. Mae'r adnoddau'n lân a'r rhan fwyaf ohonynt yn addas i anghenion y plant. Yn gyffredinol, mae'r arweinwyr yn dangos eu bod yn rheoli ac yn lleihau'r perygl o niwed i'r plant.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau diogelwch yr amgylchedd?

Ar y cyfan, mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau na allai unigolion heb awdurdod gael mynediad i'r safle trwy gloi'r drws blaen a gofyn i ymwelwyr gofnodi eu presenoldeb. Roedd yr ardal chwarae awyr agored yn gaeedig, ac roedd yr arweinwyr yn cadw asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer y safle a'r gweithgareddau a gynlluniwyd, sy'n golygu eu bod yn ymrwymedig i gadw'r plant yn ddiogel. Er bod sylw wedi'i roi i glirio'r teganau a'r adnoddau o'r toiled i'r anabl ers ein harolygiad diwethaf, roedd y gofod yn cael ei ddefnyddio fel man newid cewynnau gan wasanaeth gwahanol, a gallai peryglon posibl gael eu gadael o fewn cyrraedd plant y clwb. Mae angen i'r arweinwyr edrych ar ffyrdd o reoli'r risgiau hyn i blant yn briodol. Gwnaethom ofyn i arweinwyr asesu diogelwch y cabinet ffeilio a oedd yn sefyll yn rhydd yn yr ystafell chwarae, a chynnwys sut roeddent yn rheoli'r risg niwed bosibl i blant yn eu hasesiadau risg ysgrifenedig. Y tu allan, gwelsom fod y gwasanaeth a oedd yn defnyddio'r safle cyn i blant y clwb ddod wedi storio teganau wedi'u torri rhwng dwy sied. Mae angen symud neu gael gwared ar adnoddau o'r fath er mwyn atal risg niwed bosibl i blant.

Mae angen i arweinwyr wneud rhai gwelliannau er mwyn cadw plant yn ddiogel ar bob adeg.

### 3.2 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau addasrwydd yr amgylchedd?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd priodol sy'n addas i oedrannau'r plant sy'n mynychu'r clwb.

Roedd arweinwyr yn ceisio addasu'r amgylchedd dan do er mwyn sicrhau ei fod yn addas i anghenion y plant, oherwydd roedd yr ystafell chwarae wedi'i gosod yn bennaf ar gyfer y plant cyn-oed ysgol a oedd yn defnyddio'r safle ar wahanol adegau. Er enghraifft, ni allai plant hŷn bob amser eistedd yn gysurus yn ystod amser te, oherwydd roedd y byrddau a'r cadeiriau'n rhy isel, ac nid oedd ganddynt le penodol ar wal lle gallent arddangos eu gwaith eu hunain. Fodd bynnag, roedd yr arweinwyr wedi ceisio gwneud yr amgylchedd yn

groesawgar trwy roi hysbysfwrdd dynodedig gyda gwybodaeth am y clwb yn ardal y dderbynfa. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân, yn cael ei gynnal a'i gadw, a'i fod yn hybu annibyniaeth plant, oherwydd gallent wneud pethau trostynt eu hunain. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant ddigon o ofod i chwarae yn yr awyr agored a digon o gysgod i'w cadw rhag mynd yn rhy gynnes yn y tywydd poeth.

Gallai'r arweinwyr edrych ar sut gallent wella'r amgylchedd i'w wneud yn fwy croesawgar ac yn fwy addas i blant hŷn.

### 3.3 Pa mor dda mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r offer?

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau ac offer priodol ar gyfer y plant.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan blant fynediad at amrediad priodol o adnoddau chwarae a dysgu a oedd yn briodol i'w datblygiad, a digon ohonynt i gynnig dewis i'r plant. Er enghraifft, digonedd o ddefnyddiau gwaith celf ac amrywiaeth o gemau yr oedd y plant yn eu mwynhau'n fawr, yn enwedig y gêm 'Guess Who'. Y tu allan, roedd gan y plant bopeth a oedd ei angen arnynt i greu a dodrefnu eu cuddfan, i eistedd a chwarae cardiau neu i sgwrsio â'u ffrindiau. Dangosodd yr albwm lluniau fod y plant wedi cael adnoddau i ehangu eu sgiliau coginio, fel adnoddau ar gyfer coginio cacennau a gwneud pitsas.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant adnoddau addas sy'n hybu eu chwarae a'u dysgu.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr wedi creu ethos cadarnhaol yn y gwasanaeth o ran cefnogi staff a gwneud yn siŵr bod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod staff yn briodol ac yn cymryd camau i wella arferion a gweithredu newidiadau. Mae ganddynt berthynas weithio dda â'r ysgol ac maen nhw'n rhoi gwybodaeth i rieni'n gyson.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae arweinwyr yn deall beth mae angen ei roi ar waith er mwyn rheoli'r gwasanaeth.

Roedd gan yr arweinwyr ddatganiad o ddiben ysgrifenedig (llawlyfr rhieni) a oedd yn adlewyrchu'r hyn roedd y gwasanaeth yn ei ddarparu. Roedd hwn yn rhoi'r rhan fwyaf o'r wybodaeth a oedd ei hangen ar rieni i benderfynu a oedd y gwasanaeth yn addas i'w hanghenion nhw ac anghenion eu plentyn. Fodd bynnag, mae angen i'r arweinwyr gynnwys gwybodaeth sy'n ymwneud â'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r cyfleusterau sy'n cael eu cynnig. Roedd yr arweinwyr yn bodloni’r safonau a’r rheoliadau fel sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith, sicrhau y cedwid at gymarebau staffio a sicrhau bod cofnodion fel presenoldeb dyddiol staff a phlant yn cael eu cadw. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn ddwyieithog, yn siarad Cymraeg a Saesneg, ac mai Cymraeg oedd yr iaith a oedd yn cael ei hyrwyddo. Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm, a'r sesiwn yn rhedeg yn esmwyth o ganlyniad i hyn. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd i wneud dewisiadau ac archwilio a dysgu ar eu cyflymder eu hunain, ac roeddent yn cefnogi'r plant yn dda pan nodwyd anghenion ychwanegol.

Mae'r arweinwyr yn gosod amcanion a pholisïau eglur sy'n canolbwyntio ar anghenion y plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw’r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn asesu ansawdd y gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwella.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad blynyddol o'r gwasanaeth, gan ystyried yr adborth gan rieni, staff a phlant, ac wedi ystyried beth gallent ei wneud er mwyn cyflawni gwelliannau. Er enghraifft, roedd y staff yn credu bod y clwb wedi mynd yn rhy fawr i'w leoliad presennol, ac roedd yr arweinwyr wrthi'n edrych ar ehangu'r amgylchedd i gynnwys neuadd yr ysgol a chynnig offer i'r plant a oedd yn fwy addas i'w hoedrannau. Gan mai ychydig iawn o rieni a ymatebodd i holiaduron y gwasanaeth, roedd yr arweinwyr yn ystyried cyhoeddi fersiwn byrrach i rieni y tro nesaf iddynt geisio cael eu barn. Gwnaethom siarad ag un rhiant, a ddywedodd wrthym ei bod yn fwy na bodlon â'r gwasanaeth, roedd ei phlentyn yn hapus iawn yn mynychu'r clwb, ac roedd yn ymddiried 100% yn y staff i gysylltu â hi pe bai angen gwneud hynny. Roedd y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fynegi eu barn, er enghraifft, roedd eu hadborth ar ôl helfa drysor a drefnwyd yn gadarnhaol iawn, a phan nad oedd y plant yn hoffi gweithgaredd, roedd y staff yn gwrando ar eu hadborth ac yn gwneud newidiadau er mwyn gwella'r gweithgaredd yn y dyfodol.

Mae'r arweinwyr wedi sefydlu gweithdrefnau effeithiol i fonitro'r gwasanaeth a gwneud gwelliannau sydd o fudd i'r plant a'u gofal pan fo angen.

### 4.3 Pa mor effeithiol mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r arweinwyr yn rheoli staff ac adnoddau yn dda.

Roedd yr arweinwyr yn gweithio ochr yn ochr â'r staff yn y clwb, ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn gweithio gyda'i gilydd yn yr ysgol. Golygai hyn eu bod yn adnabod y plant a'i gilydd, gan ganiatáu iddynt weithio'n dda fel tîm. Roedd digon o staff yn cael eu cyflogi a, lle roedd unrhyw absenoldebau, roedd yr arweinwyr yn gwneud yn siŵr bod staff ar gael i gyflenwi a gofalu am y plant pan oedd angen. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod perfformiad y staff yn cael ei fonitro trwy oruchwyliaeth reolaidd, cyfarfodydd staff ac arfarnu blynyddol, ac roeddent yn annog staff i fynychu hyfforddiant a chyrsiau yn ystod y flwyddyn. Roedd yr arweinwyr yn cynnal y gwiriadau addasrwydd perthnasol ar staff, gan sicrhau bod pob un yn addas i ofalu am y plant ac yn gyfarwydd â pholisïau a gweithdrefnau’r gwasanaeth.

Mae gan arweinwyr drefniadau cyflenwi da ar waith pan fydd absenoldebau, ac maen nhw'n dangos eu bod yn rheoli eu hadnoddau er mwyn darparu'r gofal sydd ei angen ar y plant.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr wedi meithrin partneriaethau cadarnhaol â rhieni a’r ysgol gynradd leol, a rhai partneriaethau â'r gwasanaeth arall sy'n defnyddio'r safle ar wahanol adegau.

Canfuom dystiolaeth ysgrifenedig fod yr arweinwyr yn gweithio'n agos â rhieni i nodi anghenion a hoffterau plant cyn iddynt ddechrau. Roedd yr arweinwyr yn rhoi gwybodaeth i rieni am amser eu plentyn yn y gwasanaeth, a gwnaethant ddweud wrthym fod ganddynt berthynas dda â'r ysgol. Roedd yr arweinwyr yn ymdrechu i wella'r perthnasau â'r grŵp cyn-ysgol ac roedd llyfr cyfathrebu a oedd yn cael ei rannu gan y ddau barti wedi'i roi ar waith a oedd yn nodi materion oedd angen sylw. Er enghraifft, dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod wedi nodi'r teganau oedd wedi torri a adawyd gan y gwasanaeth arall yn yr ardal chwarae awyr agored yn y llyfr, a chafodd y rhain eu clirio'n brydlon, gan wella'r diogelwch i blant y clwb.

Mae'r arweinwyr wedi datblygu partneriaethau da er mwyn cynnal gwasanaeth sy'n cynnig gofal ar ôl ysgol i blant yn ystod amser tymor yr ysgol.

# 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

## 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Rheoliad 28 (1) a (2) Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae'n rhaid i'r personau cofrestredig sicrhau bod yr holl wiriadau clirio gofynnol wedi'u gwneud a bod ffeil staff gyflawn ar gyfer pob aelod o'r staff. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'r mater hwn wedi derbyn sylw.

- Rheoliad 15 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae angen i'r datganiad o ddiben gynnwys yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant. Mae angen rhoi sylw i'r mater hwn o hyd.

## 5.2 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn yr arolygiad hwn

Gwnaethom hysbysu'r unigolyn cyfrifol nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Rheoliad canlynol. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio am na chanfuom dystiolaeth, ar yr achlysur hwn, fod hyn yn cael effaith niweidiol ar lesiant y plant. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r unigolion cyfrifol gymryd camau i fynd i'r afael â'r mater hwn:

- Rheoliad 15 Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 – mae angen i'r datganiad o ddiben gynnwys yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant.

## 5.3 Argymhellion ar gyfer gwella

Gallai arweinwyr ystyried y canlynol:

- Gwella'r amgylchedd i fod yn fwy croesawgar i blant, gan ddarparu mwy o ofod ac offer sy'n addas i'r plant hŷn
- Mynd i'r afael â'r peryglon posibl i blant a nodwyd yn yr arolygiad o ran y ffordd y dylent gael eu rheoli, a dileu'r peryglon hyn o fewn asesiad risg ysgrifenedig y gwasanaeth lle y bo'n bosibl.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Cafodd yr arolygiad hwn ei gynnal fel rhan o'n hamserlen arferol o arolygiadau. Yn ystod ein hymweliad cyntaf ar 15 Mehefin 2018, gwnaethom gyrraedd am 3.15pm a gadael am 5.40pm. Er mwyn cwblhau'r arolygiad, gwnaethom gynnal ail ymweliad ar ôl oriau'r ysgol ar 26 Mehefin 2018.

- Gwnaethom archwilio sampl o ddogfennau, gan gynnwys: polisïau a gweithdrefnau, y datganiad o ddiben, cofnodion presenoldeb dyddiol, asesiadau risg, amddiffyn plant, cwynion a pholisïau rheoli ymddygiad
- Gwnaethom edrych ar yr ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau
- Gwnaethom siarad â'r staff, un rhiant a'r plant
- Gwnaethom arsylwi ar y plant ac ar y gofal yr oeddent yn ei dderbyn
- Gwnaethom siarad ag un o'r unigolion cyfrifol, sydd hefyd y person â gofal, i ddarparu adborth ar ein canfyddiadau.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan, www.aggcc.org.uk

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal dydd plant**<br>**Gofal y tu allan i oriau ysgol** |
| **Unigolion cyfrifol** | **Maira Lewis**<br>**Mair Crookes** |
| **Person â gofal** | **Maira Lewis** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **18** |
| **Ystod oedran y plant** | **4–11 mlwydd oed** |
| **Oriau agor** | **Rhwng 3pm a 6pm, ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol.** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **15 Ebrill 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **15 Mehefin 2018** |
| **Ydy hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?** | **Ydy**<br>**Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a allai ddefnyddio'r gwasanaeth, o ran y Gymraeg a'i diwylliant.** |
| **Gwybodaeth ychwanegol:** | |